COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 18 MEHEFIN 2018, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | T Giffard | M Jones | RL Penhale-Thomas |
| RMI Shaw | JC Spanswick | T Thomas | CA Webster |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Clarke a/ac J Gebbie

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gail Jewell | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Judith Brooks | Rheolwr Grŵp, Cymorth Busnes |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |

61. ENWEBU CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorydd CA Green yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar gyfer y Flwyddyn Gyngor.

62. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y Datganiadau o Fuddiant canlynol:

Datganodd y Cynghorydd RMI Shaw fuddiant personol yn eitem 6 ar yr agenda - Enwebiad i Banel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel aelod o Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Datganodd y Cynghorydd JC Spanswick fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda - Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18 gan fod ei wraig yn cael ei chyflogi yn y gwasanaeth Gofal Cartref.

63. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 29 Mawrth a 30 Ebrill 2018 fel cofnod cywir.

64. ADRODDIAD ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cynghorydd CA Webster fel yr Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol.

65. ENWEBU I BANEL TROSOLWG A CHRAFFU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Aelodau canlynol i eistedd ar Banel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

Y Cynghorydd RMI Shaw
Y Cynghorydd JC Spanswick
Y Cynghorydd T Thomas

66. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD - PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad a oedd yn ceisio sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRD). Dywedodd fod Cyd-Gabinet CCRD yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2017 wedi ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gynigion i sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd. Penderfynwyd wedyn mai'r awdurdod hwn fyddai'r Awdurdod Cynnal.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y cefndir a'r wybodaeth am y cynnig ynghyd â'r Cylch Gorchwyl drafft. Byddai pob un o bwyllgor craffu priodol yr awdurdodau cyfranogol yn ystyried adroddiad sy'n cynnwys manylion y cynnig cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn unol â Chanllawiau Statudol, a gyhoeddwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Ystyriodd y Pwyllgor fod angen sefydlu craffu ac atebolrwydd priodol ac roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd fawr o wybodaeth wedi'i chyflwyno iddo ynghylch sut y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd yn gweithredu. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer prosiect y Fargen Ddinesig a bod yn rhaid i'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet ar y Cyd fod yn ddarostyngedig i graffu. Rhoddodd y Pwyllgor gefnogaeth mewn egwyddor i sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd, ond roedd o'r farn y byddai'n hoffi derbyn gwybodaeth bellach am drefniadau'r cyfarfod ac am eglurhad am ei bwerau i alw penderfyniadau i mewn a chyfeirio materion yn ôl i'r Cabinet ar y Cyd, cyn enwebu Aelod i'r Cyngor i gynrychioli'r awdurdod ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd CCRD. Hefyd, ystyriai'r Pwyllgor ei bod yn ofynnol iddo gael gwybodaeth ynghylch a fyddai craffu cyn penderfynu yn digwydd, a p'un a fyddai'r Trosolwg a Chraffu ar y Cyd yn gallu archwilio penderfyniadau gwariant ar y prosiect.

**Casgliadau**
Mae'r Pwyllgor yn cefnogi sefydlu JOSC ar gyfer CCRCD mewn egwyddor, er y gofynnir am eglurhad ar y canlynol cyn y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2018 lle gofynnir i'r Pwyllgor enwebu Aelod i gynrychioli'r Awdurdod:

- Pa bwerau fyddai'r JOSC yn eu defnyddio - a fyddai'r Pwyllgor yn cyflawni unrhyw eitemau cyn penderfynu?
- Pa gyfrifoldeb fyddai gan y person enwebedig?

Nododd yr aelodau hefyd na fyddai dau gyfarfod y flwyddyn yn caniatáu Craffu effeithiol ar y CCRCD a mynegwyd eu pryderon mewn perthynas â'r adroddiad yn cadarnhau y byddai Craffu yn gyfyngedig yn y flwyddyn gyntaf, gan fod Aelodau'n ymwybodol bod penderfyniadau eisoes yn cael eu gwneud.

67. MONITRO ARGYMHELLION CRAFFU BLYNYDDOL 2017 - 18

Cyflwynodd y Swyddog Craffu argymhellion y Pwyllgor hwn, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bynciau a'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb ar gyfer 2017-18. Bydd monitro blynyddol yr holl argymhellion a wneir gan graffu yn manylu ar yr eitemau a godwyd ac a drafodwyd trwy gydol y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i'r Aelodau benderfynu pa bynciau y maent am ail-edrych arnynt neu rai sy'n parhau i fod yn destun pryder i ddarparu sylfaen ar gyfer pennu Blaen Raglen Waith 2018 -19.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor adolygu'r canlyniadau a'r effeithiau y mae'r Pwyllgor Craffu wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrhau bod pob Pwyllgor yn derbyn yr argymhellion sy'n berthnasol i'w Pwyllgor eu hunain yn unig yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ynghylch y fformat a'r amseroldeb o ran sut yr ymatebir i geisiadau am ragor o wybodaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor, fel rhan o'r adolygiad o'r broses atgyfeiriadau, fod lefel yr anfodlonrwydd yn y modd y darperir gwasanaethau yn cael ei ystyried gan fod y Pwyllgor yn dymuno gweld mwy o barodrwydd yn y Cynllun Corfforaethol i ymdrin â lefelau anfodlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau ac ystyried a oes yna themâu cyffredin er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau. Ystyriai'r Pwyllgor y gellid rhannu'r adroddiadau Diweddariad am Wasanaeth a Pherfformiad a adroddir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda'r Pwyllgor hwn.

Ystyriai'r Pwyllgor ei fod yn dymuno gweld y Contract Gwastraff yn cael ei ailystyried fel rhan o'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol.

**Casgliadau**
Mae'r Pwyllgor yn argymell, wrth gyflwyno argymhellion yn y dyfodol a'u hymatebion, eu bod yn cael eu dyrannu i'r Pwyllgor perthnasol ac yna y caiff unrhyw sylwadau eu coladu a'u bwydo'n ôl i'r Pwyllgor Corfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas ag Atgyfeiriadau gan Aelodau, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o'r holl atgyfeiriadau. Cadarnhaodd yr Aelodau y byddai hyn yn amlygu themâu anfodlonrwydd cyffredin ac yn darparu pynciau allweddol y dylid eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu.

68. BLAEN RAGLEN WAITH AROLWG TROSOLWG A CHRAFFU 2018-19

Adroddodd y Swyddog Craffu ar yr eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 25 Gorffennaf 2018 a gofynnodd am gadarnhad o'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y cyfarfod dilynol i'w gynnal ar 17 Medi 2018. Cyflwynwyd ymatebion i'r Pwyllgor i sylwadau, argymhellion a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor. Hefyd, cyflwynwyd rhestr i'r Pwyllgor o eitemau posibl y Flaen Raglen Waith ar gyfer eu blaenoriaethu a'u dyrannu i bob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bynciau.

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid ystyried eitem y Fargen Ddinesig yn y cyfarfod ar 27 Gorffennaf 2018. Yn ogystal â'r gofyniad i'r Prif Weithredwr fod yn bresennol, gwahoddir y Cynghorydd Andrew Morgan, Cadeirydd Cyd-Gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i fynychu hefyd. Cydnabu'r Pwyllgor bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng rôl y Pwyllgor hwn wrth graffu ar y Fargen Ddinesig o safbwynt Pen-y-bont ar Ogwr gyda beth fydd rôl Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd CCRD o ran craffu ar y prosiect ar draws y rhanbarth.

Penderfynodd y Pwyllgor ei fod yn dymuno craffu ar Wasanaethau Gwastraff yn ei gyfarfod ar 26 Medi.

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd fod eitem ar Gaffael a Chontractau Moesegol yn cael ei dyrannu i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 3 ar 17 Medi 2018 a bod Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol a'r Rheolwr Caffael Corfforaethol yn cael eu gwahodd i fynychu. Hoffai'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw gael eglurhad o'r rôl sydd gan y Tîm Caffael Corfforaethol wrth sicrhau cydymffurfiaeth â chontractau ac a yw'r rôl hon wedi'i datganoli i'r Adrannau ar gyfer monitro contractau mawr ac a oes cosbau ariannol yn cael eu gorfodi i gontractwyr nad ydynt yn perfformio.

Dyrannodd y Pwyllgor Safonau Ysgol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1 ar 4 Gorffennaf 2018 a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Ddi-Blastig i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 3 ar 23 Gorffennaf 2018.

**Casgliadau**

Cadarnhaodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol ar gyfer Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:

- Cytunodd yr Aelodau i dderbyn y Fargen Ddinesig ar 26 Gorffennaf 2018 ac ail-ychwanegu Cydweithredu gyda'r Heddlu at y Flaen Raglen Waith i'w hystyried yn y dyfodol
- Gofynnir i'r Aelodau dderbyn adroddiad ar Gaffael a Chontractau ar 26 Medi 2018. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r adroddiad gynnwys:
  - Pa broses fonitro sydd ar waith gyda chontractwyr i sicrhau cydymffurfiaeth?
  - Pwy sydd â rhwymedigaeth i warantu cydymffurfiaeth?
  - Sut y gellir sicrhau atebolrwydd cyhoeddus os yw gwybodaeth o fewn contract wedi'i chyfyngu i Aelodau?
  - A gafodd unrhyw gosbau ariannol eu cyhoeddi o ganlyniad i dorri contract?
  - Dyddiadau terfyn ar gyfer pob prif gontract.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrhau bod y swyddogion canlynol yn cael eu gwahodd i fynychu'r canlynol ar gyfer yr eitem Caffael a Chontractau:

- Rachel Jones, Rheolwr Caffael Corfforaethol
- Kelly Watson, Rheolwr Grŵp Cyfreithiol
- Cynrychiolydd o'r Gyfarwyddiaeth Lles
- Cynrychiolydd o'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau

Cadarnhaodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol ar gyfer Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Pynciau:

12 Gorffennaf 2018 SOSC 2 Diogelu
23 Gorffennaf 2018 SOSC 3 Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Ddi-blastig
5 Medi 2018 SOSC1 Safonau Ysgol
6 Medi 2018 SOSC 2 Diwygio ADY
17 Medi 2018 SOSC 3 Gwastraff
16 Hydref 2018 SOSC 1 Eiriolaeth

69. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Adroddiad Blynyddol drafft y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18 am sylwadau, a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r barnau a fynegwyd yn lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn seiliedig ar hunanasesiad yr Awdurdod o berfformiad a chyflwyniad y gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) o fis Hydref 2016 wedi newid y ffordd y maent yn arolygu

gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion ac yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, roedd AGC (CIW) wedi datblygu fframwaith newydd sy'n anelu at sicrhau bod awdurdodau'n cael eu harolygu gan ddefnyddio canlyniadau llesiant y Ddeddf. Nod yr Adroddiad Blynyddol yw rhoi trosolwg o ofal cymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda chyfraniadau gan staff ac mae'n cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd fod y templed ar gyfer yr adroddiad yn dilyn y chwe safon ansawdd genedlaethol ar gyfer lles.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Pwyllgor fod y blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn adlewyrchu'r dadansoddiad o berfformiad ac yn mynd i'r afael â chyd-destun heriol y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r galw cynyddol ar gyfer y rhai sydd mewn angen.

Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion am nifer y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd. Hysbysodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y Pwyllgor mai nifer y plant sy'n derbyn gofal yr wythnos ddiwethaf oedd 374 a bod y ffigur yn newid yn gyson. Mae'r duedd yn gyffredinol yn gostwng sy'n cyferbynnu â'r darlun yn genedlaethol lle mae niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn cynyddu. Holodd y Pwyllgor sut roedd hyn yn cymharu â'r darlun yn Lloegr a'r Alban. Hysbysodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y Pwyllgor fod yna broblemau tebyg yn Lloegr i'r rhai a brofwyd gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru gyda'r niferoedd yn cynyddu. Dywedodd y gellid ystyried yr arfer a ddefnyddir yn yr Alban i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Holodd y Pwyllgor y rhesymau dros y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y Fwrdeistref Sirol. Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y Pwyllgor fod yr awdurdod yn gweithio'n rhagweithiol gyda Chymorth Cynnar a Theuluoedd i atal plant rhag bod yn rhai sy'n derbyn gofal ac mae trefniadau ar gyfer gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig ar waith hefyd. Dywedodd fod y Rheoleiddiwr yn fodlon bod gan yr awdurdod y trothwyon cywir ar waith i gadw plant yn byw'n ddiogel gyda'u teuluoedd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mai'r elfen bwysicaf mewn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yw gwneud hynny yn ddiogel ac mae yna ddull system gyfan o wneud hyn.

Holodd y Pwyllgor a oes cynlluniau i ddod â phlant sy'n derbyn gofal sydd mewn lleoliadau yn Lloegr yn ôl fel eu bod yn derbyn gofal yn agosach at eu cartrefi. Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant wrth y Pwyllgor fod llawer iawn yn cael ei wneud i ymdrin â'r mater hwn, sef y prosiect ailfodelu preswyl. Dywedodd na ellid gofalu am rai plant sy'n derbyn gofal yn lleol oherwydd eu hanghenion penodol. Ond y mae'r awdurdod yn ymestyn ei ddarpariaeth drwy'r prosiect ailfodelu preswyl. Holir awdurdodau lleol cyfagos yn rheolaidd i ganfod a oes ganddynt ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod hwn, ond mae gan y rhan fwyaf ohonynt brinder mewn darpariaeth debyg i'r awdurdod hwn. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Pwyllgor fod plant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaeth bwysig i'r Gyfadran.

Gofynnodd y Pwyllgor a ellid gwneud mwy o ddefnydd o systemau TGCh yn y Gyfarwyddiaeth. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Pwyllgor fod y WCCIS bellach yn cael ei ddefnyddio gan 13 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae Cynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr bellach wedi ymuno fel defnyddwyr. Gwneir defnydd pellach o TGCh i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth Teleofal sy'n eu galluogi i fyw'n fwy annibynnol. Mae gan staff yn y gwasanaeth Gofal Cartref ddyfeisiau tabled i'w galluogi i gael mynediad at batrymau shifft a rota. Gall defnyddwyr gwasanaeth wneud defnydd o'r porth Dewis i'w galluogi i gasglu gwybodaeth sydd ei hangen arnynt ynghylch y gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd ar gael. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wrth y Pwyllgor fod

gwasanaethau tymor byr yn cael eu treialu yn gysylltiedig â system WCCIS. Dywedodd y byddai'n cynnwys paragraff yn yr Adroddiad Blynyddol am y defnydd o TGCh.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at Safon Ansawdd 5 a holodd a oedd cyrsiau'n cael eu cynnig i ddefnyddwyr gwasanaeth i'w cefnogi i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cartref, teuluol a phersonol iach neu a oes trothwyon yn eu lle. Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant wrth y Pwyllgor fod plant yn cael cynnig ystod o wasanaethau a bod ymgyrchoedd wedi'u targedu yn cael eu cynnal. Anogir y plant i ymgysylltu â gweithgareddau a hefyd mae ganddynt gefnogaeth un i un, gyda'r gwasanaeth Lles yn cynnal rhaglen Get on Track a chynlluniau chwarae. Comisiynwyd gwaith i ddatblygu ap ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chynigir lleoliadau gwaith hefyd. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y gwasanaethau hyn hefyd yn cael eu cynnig i blant sy'n derbyn gofal sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y Pwyllgor fod y gwasanaeth wedi ymdrechu i gynnig cyfle cyfartal i blant sy'n derbyn gofal os ydynt mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Bydd darparwyr lleoliadau yn cyfeirio plant sy'n derbyn gofal at gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynnodd a ydynt yn effeithio ar y gyllideb ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Pwyllgor fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi dod â phwysau ychwanegol, ond nid oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer ei gweithredu, ar wahân i arian ICF sydd ar gael i'w ddefnyddio ar draws y rhanbarth. Dywedodd fod cynaliadwyedd gwasanaethau yn bwysig a bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu harwain gan y galw. Roedd gwasanaethau a'u hyfywedd ariannol yn cael eu hadolygu fel rhan o'r cynigion i leihau’r gyllideb. Hysbysodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y Pwyllgor y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar 16 Gorffennaf i drafod y defnydd o'r arian grant trawsnewid gwerth £100 miliwn ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Pwyllgor fod adolygiad Seneddol wedi'i gwblhau ac y byddai £100m o gyllid ar gael i'w wario ar draws y rhanbarth dros 2 flynedd. Dywedodd mai'r her yn awr yw cysoni ffin y bwrdd iechyd â Chwm Taf, a'r angen i Ben-y-bont ar Ogwr dderbyn cyfran deg o'r arian hwnnw a fyddai'n golygu newid i'r systemau cyfan.

Holodd y Pwyllgor y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles am ei barn am gysoni’r ffin iechyd a chynlluniau i barhau â rhanbarth Bae’r Gorllewin. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod gan Ben-y-bont ar Ogwr droedle cadarn iawn yn rhanbarth Gorllewin y Bae a chyda chysoni ffin y bwrdd iechyd roedd yn rhaid iddo bellach ddatblygu troedle cadarn gyda Chwm Taf. Roedd swyddogion o Ben-y-bont ar Ogwr bellach yn mynychu cyfarfodydd cynllunio gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Chynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr i fwrw ymlaen â'r bartneriaeth newydd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd, o safbwynt y gwasanaeth iechyd, y byddai'n golygu trosglwyddo staff ar raddfa fawr o dan y trefniadau TUPE. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Pwyllgor fod Cwm Taf yn fwrdd iechyd uchelgeisiol ac roedd yn edrych ymlaen at yr heriau y byddai cysoni ffiniau'r bwrdd iechyd yn eu dwyn. Dywedodd Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod yn rhaid i'r pwyslais barhau i fod ar weithio mewn partneriaeth fel rhanbarth, ond byddai hyn bellach gyda Chwm Taf. Holodd y Pwyllgor y rheswm dros yr uno â Chwm Taf. Dywedodd Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod cysoni'r bwrdd iechyd yn ymwneud â chysoni ffiniau'r rhanbarth ac nad oedd y trefniadau yn gysylltiedig â'r cynigion ar gyfer uno cynghorau o fewn llywodraeth leol.

Croesawodd y Pwyllgor gyflwyno Cydlynwyr Cymunedol Lleol i Ben-y-bont ar Ogwr ac roedd yr aelodau yn awyddus i archwilio'r canlyniadau pendant o'r atgyfeiriadau a wnaed. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wrth y Pwyllgor fod gan Ben-y-bont ar Ogwr 3 Cydlynydd Cymunedol Lleol sydd wedi'u lleoli yng nghymunedau'r cymoedd ar hyn o bryd. Cydlynydd Cymunedol Lleol Maesteg oedd y cyntaf i'w sefydlu ac mae wedi'i leoli mewn practis meddyg teulu. Rôl y Cydlynydd Cymunedol Lleol yw cefnogi pobl sy'n profi unigedd cymdeithasol a rhoi cymorth yn y gymuned. Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion wrth y Pwyllgor mai nod y gwasanaeth hwn yw ei wneud yn gynaliadwy a helpu i atal ynysu. Dywedodd fod llawer o gyfeillgarwch wedi cael ei ffurfio o ganlyniad i waith y Cydlynwyr Cymunedol Lleol ac roedd enghreifftiau bellach lle mae pobl a oedd wedi profi ynysu o'r blaen yn awr yn gwirfoddoli gyda grwpiau eraill. Dywedodd Aelod Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y Cabinet fod gwaith y Cydlynwyr Cymunedol Lleol wedi bod yn hanfodol wrth ddatblygu perthynas â phobl anodd eu cyrraedd ac roedd wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Holodd y Pwyllgor a oedd y Gyfarwyddiaeth wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad am wasanaethau bws y rhoddir cymhorthdal tuag atynt. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nad oedd gan y Gyfarwyddiaeth lawer iawn i'w gyfrannu i'r ymgynghoriad.

Dywedodd aelod o'r Pwyllgor fod Ynysawdre yn gobeithio dod yn gymuned gyfeillgar i ddementia a gofynnodd a oedd yna uchelgais i sicrhau bod pob cymuned ar draws y sir yn dod yn gyfeillgar i ddementia. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y byddai'n hoffi gweld pob cymuned yn dod yn gyfeillgar i ddementia.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y ffaith fod yna gymunedau cyfeillgar i awtistiaeth yn bodoli hefyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod gan y Cyngor fynediad at Gydlynydd ASD a gyda'r symud i Gwm Taf, byddai angen gweld pa gefnogaeth barhaus fyddai ar gael. Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion y byddai angen ystyried sut y byddai'r Tîm Awtistiaeth Integredig yn cael ei reoli ynghyd â Chwm Taf.

**Casgliadau**
Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r ffigurau gwell a gyflwynwyd yn yr adroddiad ar gyfer y lleihad diogel yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig gan fod y dirywiad yn mynd yn groes i'r duedd a adroddwyd mewn ardaloedd eraill. Roedd yr Aelodau'n argymell bod y Gyfadran yn gwneud ymchwil i'r dulliau a weithredir yn yr Alban i fabwysiadu arfer gorau o ran cymorth cynnar ac atal.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r diffyg cyfeiriad at 'ddefnyddio adnoddau'n fwy doeth' yn yr adroddiad yn nhermau technoleg ac yn argymell y dylai'r ddogfen amlygu sut mae TGCh wedi cynorthwyo gyda phrosesau gofal cymdeithasol a lleihau nifer y staff.

Holodd y Pwyllgor am effaith y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar y gyllideb o ran cydymffurfiaeth ac maent yn argymell bod y Gyfarwyddiaeth yn ystyried ail-eirio'r goblygiadau ariannol yn yr adroddiad cyffredinol i adlewyrchu'r pwysau ariannol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei gwahodd i weithredu fel ymgynghorai ar gyfer y Gwasanaethau Bws a Gefnogir, yn enwedig gan y gallai gostyngiadau i rai llwybrau bysiau effeithio ar iechyd a lles trigolion oherwydd ynysu cynyddol, a allai arwain at ymchwydd yn y pecynnau gofal sy'n ofynnol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly mae'r Aelodau'n argymell y dylid

gwahodd pob Cyfarwyddiaeth i ymateb i bob ymgynghoriad a fyddai hefyd yn cynorthwyo gydag ymagwedd Un Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn canmol gwaith parhaus y Cydlynwyr Cymunedol Lleol (LCC) yn y Fwrdeistref ac mae'n falch bod cyfeiriadau atynt yn yr adroddiad, ond mae'r Aelodau'n argymell y dylid rhoi canlyniadau mwy pendant yn y ddogfen fel tystiolaeth o'u hymdrechion, fel mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi y bydd y Gyfarwyddiaeth yn parhau i ddatblygu cymunedau cyfeillgar i ddementia a bod cynllun ar waith i gynyddu nifer y ffrindiau dementia ar draws y fwrdeistref sirol drwy hyfforddi staff, Aelodau etholedig, ysgolion a cholegau. Mae'r Aelodau'n argymell y dylid rhoi'r un pwyslais ar greu cymunedau cyfeillgar i Awtistiaeth.

70. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

71. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 16 Rhan 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Nid oedd yr eitem hon yn destun prawf buddiant y cyhoedd am resymau braint broffesiynol gyfreithiol ac felly dylid ei hystyried yn breifat. Felly nid oedd buddiant y cyhoedd yn berthnasol o ran yr eitem hon.

72. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion eithriedig cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar 29 Mawrth 2018 fel cofnod gwir a chywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55